



Canllawiau i Rieni a Gwarcheidwaid Mewn perthynas â **Dysgu o Bell a Dysgu Cyfunol**

Ionawr 2021

Mae'r ddogfen yma ar gael yn y Saesneg
This document is available in English

Rydyn ni i gyd yn dysgu ac yn ddysgwyr

Mae dysgu o bell yn cyflwyno heriau a chyfleoedd anhygoel i athrawon, rhieni a disgyblion. Mae amgylchiadau newidiol eleni yn galw am hyblygrwydd a gwytnwch mawr wrth i ddysgu symud o'r cartref i'r ysgol ac yn ôl eto.

Mae amgylchiadau pawb yn wahanol. Mae canolbwyntio ar ddysgu annibynnol o'r cartref yn haws i rai disgyblion a theuluoedd nag eraill. Efallai bydd hyd yn oed plant a phobl ifainc sy'n gymwys yn ddigidol yn ei chael hi'n anodd gyda thechnoleg addysgol. Er efallai fydd rhai agweddau ar addysg ddim yn trosglwyddo'n hawdd i amgylcheddau ar-lein, gall disgyblion ddysgu sgiliau newydd yn llwyddiannus a datblygu cymwyseddau personol ac academaidd pwysig mewn amgylcheddau dysgu o bell.

Mae athrawon wedi bod yn gweithio'n galed trwy gydol y flwyddyn i ddatblygu cynlluniau dysgu o bell cynhwysfawr. Maen nhw'n meistrolï gofynion new a chymhleth i roi cymorth i ddisgyblion yn yr ystafell ddosbarth ac yn eu cartrefi. Mae pob ysgol yn yr awdurdod lleol yn parhau i dyfu'n broffesiynol a datblygu, gan gryfhau ein heffeithlonrwydd ar y cyd ar gyfer:

- blaenoriaethu safonau dysgu
- cyfeirio rhieni a gwarcheidwaid at adnoddau ac offer dysgu
- cyfathrebu disgwyliadau yn gyson
- creu strategaethau effeithiol ar gyfer gosod a chyflawni nodau dysgu.

Beth yw dysgu o bell?

Mae dysgu o bell yn caniatáu i ddisgyblion barhau i gyrchu'r cwricwlwm y tu hwnt i'r ystafell ddosbarth trwy dasgau a osodwyd ar-lein. Mae hyn yn caniatáu iddyn nhw ddysgu trwy raglen astudio dan arweiniad a osodwyd gan eu hathrawon. Gallai tasg dysgu o bell fod yn gyfuniad o'r hyn a restrir isod:

- Tasg estynedig dros gyfres o wersi
- Taflen waith a chwestiynau
- Darllen cefndirol neu ddeunyddiau ategol
- Cyfleoedd i asesu
- Cwblhau hen bapurau a rhoi atebion enghreifftiol
- 'Gwersi Byw' trwy blatfform digidol o ddewis yr ysgolion

Dyma rai esboniadau i helpu rhieni a chynhalwyr i ddeall y gwahanol ffurfiau ar ddysgu y gellir eu darparu i ddisgyblion yn ystod y cyfnod yma o gyfyngiadau symud. **Does dim un dull yn well nag un arall a bydd ysgolion yn dewis yr un mwyaf addas yn ôl oedran ac anghenion dysgu eich plentyn. Y cyngor yw bod cymysgedd o weithgareddau ar sgrîn ac oddi ar y sgrîn yn cael eu cynnal, lle y bo'n bosibl.**

Mae athrawon yn cyflwyno esboniadau fideo a / neu sain wedi'u cynllunio'n ofalus fel gwersi byw (**cydamserol**) neu sesiynau wedi'u recordio (**anghydamserol**) i egluro cysyniadau a dysgu newydd.

Mae **gwrs fyw** wedi'i chynllunio o amgylch cynyddrannau dysgu bach a thasgau addysgu wedi'u diffinio a'u rhagnodi'n glir. Bydd y sesiynau yma'n ategu ac yn gwella gweithgareddau a gyflwynir wyneb yn wyneb yn yr ysgol.

Mae tasgau'n rhoi cyfleoedd i ddisgyblion gymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth o sesiynau wyneb yn wyneb ac ar-lein. Mae athrawon yn cynllunio cyfleoedd i ddisgyblion weithio gyda'i gilydd a chydweithio ar brosiectau grŵp ar-lein. Mae modd i ddisgyblion weithio ar ddogfen neu gyflwyniad fideo gyda'i gilydd. Mae athrawon hefyd yn darparu gweithgareddau annibynnol i ddisgyblion a all gynnwys tasgau digidol ac all-lein.

Mae'r disgyblion yn cwblhau tasgau gan ddefnyddio llyfrau gwaith, gwerslyfrau neu adnoddau a deunyddiau papur. Bydd gwaith yn cael ei gyflwyno pan fydd disgyblion yn mynychu'r ysgol nesaf, yn cael ei lanlwytho i blatfform o ddewis yr ysgol neu'n cael ei ddychwelyd trwy'r post. Mae tasgau'n bwrpasol ac yn werth chweil, er enghraifft mae disgyblion yn defnyddio sgaffaldiau a modelau i gymhwyso'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth maen nhw wedi'u datblygu yn y sesiynau wyneb yn wyneb.

Efallai bydd athro yn gwneud cyflwyniad. Yna gall disgyblion gyflwyno cwestiynau neu wneud arsylwadau trwy gyfleuster sgwrsio. Gall athrawon gyflwyno esboniadau fideo a / neu sain wedi'u cynllunio'n ofalus fel gwersi byw (cydamserol) neu sesiynau wedi'u recordio (anghydamserol) i egluro cysyniadau a dysgu newydd. Mae gwrs fyw wedi'i chynllunio o amgylch cynyddrannau dysgu bach a thasgau addysgu sydd wedi'u diffinio a'u rhagnodi'n glir. Mae modd i athrawon a disgyblion weithio ar weithgaredd / dogfen gyda'i gilydd.

Mae athrawon yn mynd i'r afael â chwestiynau a chamsyniadau mewn sesiwn fyw. Mae modd recordio hwn i fod yn adnodd dysgu. Mae modd gofyn i ddisgyblion unigol neu grwpiau o ddisgyblion ymuno â sesiwn wedi'i hamserlennu. Fel arall, mae modd i ddisgyblion ddewis hyn yn ôl yr angen. Gellir cyfeirio disgyblion at feddalwedd neu gymwysiadau ar-lein fel strategaeth ymyrraeth.

Efallai bydd rhai ysgolion yn nodi dydy disgyblion ddim yn gallu ymgysylltu'n effeithiol â dysgu ar-lein; gall hyn fod yn arbennig o wir am ddisgyblion anodd eu cyrraedd. Yn yr achos yma, yn ystod amser wyneb yn wyneb gall athrawon gynllunio a darparu addysg uniongyrchol o'r profiadau, yr wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen ar ddisgyblion i gwblhau tasgau. Yna mae disgyblion yn ymgysylltu â'r tasgau yma gartref heb yr angen am gyfarwyddyd ar-lein pellach.

Engbreiffiau o rannu iaith bosibl:

Dysgu cyfunol:	Dull o ddysgu sy'n cyfuno profiadau dysgu wyneb yn wyneb, dysgu o bell, dysgu digidol ac ar-lein. Dylai'r dysgu wyneb yn wyneb sy'n digwydd ategu'r agweddau eraill trwy ddefnyddio cryfderau pob dull cyflwyno.
Dysgu o bell:	Mae'n caniatáu i brofiadau dysgu ddigwydd o bron unrhyw le ac efallai na fydd yn dibynnu ar ddyfais ddigidol na chysylltiad rhyngrwyd. Mae hyn yn cefnogi lles yr holl ddisgyblion, gan gynnwys dewis o gyfleoedd dysgu ar gyfer datblygiad cymdeithasol, corfforol ac emosiynol a thasgau i hyrwyddo eu cydnherthedd. Mae'n caniatáu i unigolion ddysgu pryd a ble sy'n fwy cyfleus iddyn nhw. Does dim rhaid i ddysgu o bell teg adlewyrchu dysgu fel y mae fel arfer yn yr ysgol.
Dysgu digidol:	Unrhyw arfer hyfforddi sy'n defnyddio technoleg yn effeithiol i gryfhau profiad dysgu disgybl. Yn ogystal â hyn, mae modd defnyddio dysgu digidol ar gyfer cyfleoedd dysgu proffesiynol i athrawon ac i ddarparu profiadau dysgu wedi'u personoli i ddisgyblion.
Dysgu ar-lein:	Addysg dros y rhyngrwyd. Cyfeirir ato'n aml fel e-ddysgu ymhlith termau eraill. Serch hynny, dim ond un math o "ddysgu o bell" yw dysgu ar-lein.
Dysgu cydamserol:	Dysgu pan fo'r athro'n bresennol ar yr un pryd â'r disgybl/disgyblion. Gall hyn fod wyneb yn wyneb neu ar-lein.
Dysgu anghydamserol:	Lle darperir deunyddiau addysgu ac mae disgyblion yn gweithio drwyddyn nhw yn eu hamser eu hunain. Mae modd i hyn gynnwys amrywiaeth o gyfryngau, gan gynnwys clipiau sain a fideo. Mae LIC wedi darparu arweiniad ar ddefnyddio ffrydio byw.

Mae rhagor o wybodaeth a chyfarwyddyd yma:

<https://hwb.gov.wales/dysgu-o-bell/>

<https://hwb.gov.wales/dysgu-o-bell/rhannu-ein-profiadau/#plans-for-increasing-operations-in-schools-and-settings>

<https://hwb.gov.wales/parthau/cadwn-ddiogel-ar-lein/rhieni-a-gofalwyr/canllawiau-rhieni-a-gofalwyr>

<https://hwb.gov.wales/parthau/cadwn-ddiogel-ar-lein/repository/discovery?catalogs=50f72adb-cdf7-4da9-a01a-d9b5ecafd264&kiosk=1&sort=recent&strict=1>

<https://www.s4c.cymru/cy/y-wasg/post/41359/s4c-yn-rhyddhau-80-awr-o-raglenni-ar-borth-addysgol-hwb-llywodraeth-cymru/>

https://www.bbc.co.uk/bitesize/articles/zvryp4j?utm_source=%2A+SCHOOLS%2A+CSC+Ccommunications+List&utm_campaign=66ff16f85b-EMAIL_CAMPAIGN_2019_06_17_11_16_COPY_03&utm_medium=email&utm_term=0_693196c4f6-66ff16f85b-128862066